**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 12 Ionawr 2023 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J W Jones | G D Walker |
| P M Black | L R Jones | L V Walton |
| A M Day | M H Jones | T M White |
| P Downing | M Jones | R Fogarty |
| C R Doyle | S M Jones | S Bennett |
| M Durke | E T Kirchner | A Davis |
| C R Evans | H Lawson | H J Gwilliam |
| V M Evans | A S Lewis | V A Holland |
| E W Fitzgerald | M B Lewis | D H Jenkins |
| R Francis-Davies | P Lloyd | S Joy |
| L S Gibbard | P M Matthews | S E Keeton |
| F M Gordon | P N May | M W Locke |
| K M Griffiths | C L Philpott | N L Matthews |
| J A Hale | S Pritchard | J D McGettrick |
| T J Hennegan | A Pugh | F D O'Brien |
| C A Holley | K M Roberts | A J O'Connor |
| P R Hood-Williams | B J Rowlands | J E Pritchard |
| B Hopkins | R V Smith | M S Tribe |
| D H Hopkins | A H Stevens | R A Williams |
| L James | R C Stewart | A J Jeffery |
| O G James | L G Thomas | |
| Y V Jardine | W G Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P N Bentu, C M J Evans, N Furlong, E J King, R D Lewis, W G Lewis a/ac D Phillips

---

**100. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a allai fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd taflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr P Lloyd ac A Pugh gysylltiad personol â Chofnod Rhif 104, "Mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor".

2) Datganodd y Cynghorwyr P R Hood-Williams, L James, S E Keeton, P Lloyd, N L Matthews ac A H Stevens gysylltiad personol â Chofnod Rhif 105, "Grŵp Cynghori AoHNE Gŵyr - Diwygiadau i'r Cylch Gorchwyl".

3) Datganodd y Cynghorydd A Davis, P Downing, A S Lewis a T M White gysylltiad personol â Chofnod Rhif 107, "Gosod Rhenti'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2023/24".

4) Datganodd y Cynghorydd T J Hennegan gysylltiad personol â rhagfarnol â Chofnod Rhif 107, "Gosod Rhenti'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2023/24" a gadawodd y cyfarfod wrth i hyn gael ei ystyried.

## 101. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Lillian Lloyd, cyn-Faeres a chyn-Arglwydd Faeres

Adroddodd yr Aelod Llywydd gyda thristwch am farwolaeth ddiweddar Lillian Lloyd, y cyn Faeres a'r cyn-Arglwyddes Faeres. Roedd Lillian Lloyd yn wraig i'r Henadur Anrhydeddus, y cyn-Gynghorydd a'r cyn-Faer a'r cyn-Arglwydd Faer, Alan Lloyd ac yn fam i'r cyn-Gynghorydd Clive Lloyd.

### b) Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at Ddinasyddion Abertawe a oedd wedi derbyn dyfarniadau yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd.

#### a) Cadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE)

i) Simon Phillip Tse. Prif Weithredwr, Gwasanaeth Masnachol y Goron. Am wasanaethau i'r Sector Cyhoeddus ac i Gydraddoldeb Hiliol.

#### b) Aelod Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE)

i) Dr Mohammed Qasim. Darlithydd a Swyddog Lles, Coleg Gŵyr, Abertawe. Am wasanaethau i Ymchwil Academaidd ac i Bobl Ifanc

**c) Gwobrau Buddsoddiadau Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (CPALl) 2022**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Tîm Cronfa Bensiwn y cyngor wedi ennill Gwobr y Strategaeth Newid Hinsawdd Orau yng Ngwobrau Buddsoddiadau Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (CPALl) 2022. Roedd y Wobr ar gyfer y camau breision sy'n cael eu gwneud tuag at gyflawni portffolio buddsoddiadau sero net erbyn 2037. Mae Tîm y Gronfa Bensiwn yn gofalu am bensiynau 48,000 o aelodau gyda chynllun gwerth £2.9bn. Roedd Tîm y Gronfa Bensiwn hefyd ar restr fer CPALl ar gyfer Cronfa Bensiwn y Flwyddyn a'r Strategaeth Fuddsoddi Orau.

**ch) Yvonne Lewis, Enillydd Gwobr Jeremy Allen 2022 am Ragoriaeth mewn Trwyddedu.**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Yvonne Lewis (Trwyddedu, Cyngor Abertawe) wedi ennill Gwobr Jeremy Allen 2022 am Ragoriaeth mewn Trwyddedu. Mae'r wobr gan y Sefydliad Trwyddedu a Poppleston Allen Solicitors yn agored i unrhyw un sy'n gweithio yn y maes trwyddedu a meysydd cysylltiedig ac mae'n ceisio cydnabod ymarferwyr eithriadol.

**d) Eitem Frys - Gosod Rhenti'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2023/24**

Dywedodd yr aelod llywyddol y derbyniwyd eitem frys ac y byddai'n cael ei hystyried yn hwyrach yn y cyfarfod.

**102. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

**a) Ymgynghoriad ar y Gyllideb**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb wedi cychwyn. Byddai'r cynnig ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn cynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol ond roedd y sefyllfa'n parhau i fod yn heriol. Trefnwyd y penderfyniad terfynol ar gyfer y gyllideb ar gyfer Mawrth 2023.

**b) Ardoll y Gwasanaeth Tân**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn gefnogol o'r Gwasanaeth Tân a Gwasanaethau Brys eraill. Roedd o'r farn y dylai mwy o arian fod ar ddod oddi wrth Lywodraeth y DU i ariannu'r gwasanaethau hyn yn ddigonol. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ystyried gosod ardoll o 18% ar Gyngor Abertawe, byddai hyn yn ychwanegu 2.2% at fil Treth y Cyngor ym mhob cartref.

**c) Ceisiadau Codi'r Gwastad**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Cyngor Abertawe yn aros am benderfyniad Llywodraeth y DU ynghylch y cais Codi'r Gwastad. Disgwylid y penderfyniad ar ddiwedd Ionawr 2023. Dywedodd eu bod yn geisiadau gwych a'i fod yn obeithiol o gael canlyniad cadarnhaol.

**d) Buddsoddiad Chwaraeon a Lles**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor ddiweddariad ar Fuddsoddiad Chwaraeon a Lles y cyngor. Dywedodd fod y cyngor wedi ymrwymo i barhau i fuddsoddi mewn parciau, ardaloedd chwarae a chyfleusterau sglefrio.

## 103. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

## 104. Mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu'r gofyniad i ystyried yn flynyddol a ddylid diwygio neu ddisodli Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor presennol y cyngor a'r gofyniad naill ai i fabwysiadu cynllun newydd neu ailfabwysiadu'r cynllun presennol erbyn 31 Ionawr 2023.

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am ailfabwysiadu'r cynllun presennol fel y nodir yn Adran 3 yr adroddiad ar gyfer y cyfnod 2023/24.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru erbyn hyn) ar 26 Tachwedd 2013, fel y'u diwygiwyd.

2) Nodi'r diwygiadau i'r "Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig" a gynhwysir yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a’r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023, i'w hystyried gan Senedd Cymru ar 17 Ionawr 2023.

3) Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd gan y cyngor ym mis Tachwedd 2018 ar feysydd dewisol y cynllun presennol.

4) Y bydd meysydd dewisol y cynllun presennol (2022/23) (fel y'u nodir yn adran 3 o'r adroddiad hwn) yn aros yr un fath ar gyfer y cyfnod 2023/24.

5) Y bydd y cyngor yn mabwysiadu'r cynllun fel y'i nodir yn adran 3 o'r adroddiad hwn, i gynnwys unrhyw ddiwygiadau gorfodol all fod yn angenrheidiol o ganlyniad i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a’r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023, yn amodol ar y rheoliadau hynny'n cael eu cymeradwyo gan Senedd Cymru ac yn dod i rym.

## 105. Grwp Cynghorol AoHNE Gwyr - diwygiadau i Gylch Gorchwyl.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaeth a Pherfformiad Corfforaethol adroddiad a oedd yn amlinellu rôl Partneriaeth AoHNE Gŵyr gan ei fod yn cynghori

ac yn cefnogi'r cyngor yn ei reolaeth o AoHNE Gŵyr. Roedd yr adroddiad yn gofyn am ddiwygio’r cylch gorchwyl a’r gweithdrefnau sy’n nodi sut mae’r bartneriaeth yn gweithredu, yn bennaf y broses benodi ar gyfer aelodau o'r grŵp cynghori ffurfiol sy'n rhanddeiliaid.

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r diwygiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl Partneriaeth AoHNE Gŵyr fel y'u nodir yn yr adroddiad.

## 106. Eitem Frys

Dywedodd yr Aelod Llywyddol, yn unol â pharagraff 100B (4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ei bod yn meddwl y dylid trafod adroddiad "Gosod Rhenti’r Cyfrif Refeniw Tai 2023/24” yn y cyfarfod fel mater o frys.

## 107. Housing Revenue Account (HRA) Rent Setting 2023/24

**Rheswm dros y mater brys:** Cafodd Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 9A) 2022 ei rhoi ar waith ar 1 Rhagfyr 2022. Cyflwynodd y Ddeddf gyfnod hysbysiad statudol newydd o 2 fis. Rhaid cymeradwyo'r adroddiad cyn diwedd mis Ionawr er mwyn sicrhau bod y cyngor yn bodloni'r gofynion statudol am hysbysiad yn y Ddeddf.

Cyflwynodd y Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd adroddiad a oedd yn cynnig cynnydd mewn rhenti a ffïoedd a thaliadau ar gyfer eiddo yn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2023/24.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cynnydd arfaethedig mewn rhenti a ffïoedd a thaliadau ar gyfer tai'r cyngor:

   i) Cynyddu rhenti'n unol â pholisi Llywodraeth Cymru fel y nodwyd yn Adran 3.1 yr adroddiad.

   ii) Cymeradwyo ffïoedd, taliadau a lwfansau fel y'u hamlinellir yn Adran 3.2 yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.35 pm

**Cadeirydd**